

**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**  
**4 MEDI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwnau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, am 9.30am ddydd Mercher 4 Medi 2019.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Adele Davies-Cooke, Kevin Hughes.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Trevor Bates (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun), Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ralph Small (Cyngor Sir Y Fflint), y Cynghorydd Huw Jones (Cyngor Sir Ddinbych), y Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr), Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiwnau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: NickDebbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiwnau), Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig).

**19. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO O RAN CYSYLLTIAD)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**20. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cytunwyd y gallai'r Cadeirydd dderbyn, cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion.

**21. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

Cyflwynodd Mr Middleman y ffactorau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu strategaeth gyllido.

Pwysleisiodd bwysigrwydd y Datganiad Strategaeth Cyllido fel rhan o'r Gwerthusiad Actiwaraid gan ei fod yn cydbwysu nifer o risgiau allweddol.

Esboniodd Mr Middleman mai "cynllun" y Gronfa yn sylfaenol yw sicrhau bod ganddi ddigon o arian i dalu buddion aelodau pan fyddant yn ymddeol cyhyd â'u bod yn byw. Ariennir hyn trwy gyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, ac adenillion buddsoddiad, felly'r balans rhwng y ddwy elfen yw'r hyn y mae'r FSS yn ei bennu. Yr agwedd dyngedfennol arall yw cyfamod cyflogwr. Cyfamod cyflogwr yw'r gallu a'r parodrwydd y gall cyflogwr dalu'r cyfraniadau yr ydym yn gofyn amdanynt. Mae hyn hefyd yn effeithio ar lefel ac amseriad y cyfraniadau y byddech chi'n gofyn amdanynt gan wahanol fathau o gyflogwyr. Er enghraifft, byddai disgwyl i Gyngor allu ariannu ei rwymedigaethau pensiwn dros gyfnod hirach gyda mwy o sicrwydd na chyflogwr, dyweder, sy'n ddibynol ar ffrydiau cyllido penodol. Felly, mae'n rhaid i'r strategaeth ariannu ystyried y gwahaniaethau hyn.

Nododd Mr Middleman bwytiau allweddol am y newidiadau tybiaeth arfaethedig ar y Datganiad Strategaeth Cyllido a oedd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad ar wahân. Y newidiadau allweddol oedd:

- Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt/ rhagolwg enillion o'i gymharu â chwyddiant CPI.
- Newid yn y rhagdybiaeth disgwyliad oes gan arwain at ostyngiad mewn disgwyliad oes ar gyfer y Gronfa.
- Newid yn y twf cyflog tymor byr i isafswm o 2% y.f. am 4 blynedd hyd at 2023.
- Gostyngiad cyfartalog o 3 blynedd yn y cyfnod adfer i dargedu'r un cyfnod at gyllid llawn.

Holodd Mrs McWilliam pam fod yna ddwy ragdybiaeth cyfradd ddisgownt wahanol; un ar gyfer y gorffennol a'r dyfodol. Cadarnhaodd Mr Middleman fod dwy elfen ar gyfer gosod cyfraniadau. Mae gwasanaeth yn y gorffennol yn edrych ar y diffyg sy'n ymwneud â'r buddion a enillwyd eisoes. Mae gwasanaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar aelodau sydd yn y Gronfa yn parhau i ennill buddion, ac mae gan y rhain amserlen lawer hirach i ennill enillion na'r rhwymedigaethau sydd wedi'u cronni eisoes gan fod hyn yn cynnwys pensiynau sy'n cael eu talu eisoes.

Yn ail, gofynnodd Mrs McWilliam am y cyhoeddiad diweddar ynghylch uno RPI a CPI. Dywedodd Mr Middleman na fyddai'r cyhoeddiad yn effeithio ar y sefyllfa brisio gan fod hyn wedi'i bennu cyn y cyhoeddiad felly mae asedau a rhwymedigaethau'n cael eu mesur yn gyson. Yn yr un modd, nid yw'n hollol sicr y bydd y newid yn digwydd (er yn debygol) a sut y bydd yn amlygu ei hun. Felly, argymhellodd Mr Middleman na ddylid newid y paramedrau yn y prisiad hwn ond bydd angen ystyried y mater hwn wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, roedd ymateb gan y farchnad i'r cyhoeddiad a fyddai angen ei ystyried yng nghydestun y strategaeth llwybr hedfan a rheoli risg a fabwysiadwyd. Adroddir am unrhyw effaith yng nghyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

Dywedodd Mr Everett fod hyd yn oed y Cynghorau mewn gwahanol leoedd o ran fforddiadwyedd felly roedd yn rhaid darparu ar gyfer pob amgylchiad ac roedd yn teimlo ei fod yn gwneud hynny. Cytunodd Mr Middleman ar bwyt

pwysig Mr Everett a nododd ei bod yn dod yn anoddach cydbwysu ar draws yr holl gyflogwyr er ei bod yn haws pan fydd y sefyllfa yn gwella.

Cwestiynodd y Cynghorydd Rutherford effaith y twf cyflog rhwng prisiad 2016 i 2019. Nododd Mr Middleman y tybiwyd cynnydd o 1% y.f. (gan gynnwys cynyddrannau) yn 2016. Roedd y data wedi dangos bod y cynnydd cyfartalog ar gyflog o'r data aelodaeth yn dangos c2.5% -3% y.f. dros y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn arwain at gynnydd mwy na'r disgwyl yn y rhwymedigaethau terfynol sy'n gysylltiedig â chyflog (buddion a enillwyd hyd at 2014) ac felly cynnydd bach yn y diffyg oherwydd y ffactor hwn. O ran y rhagdybiaeth tâl tymor byr sy'n edrych i'r dyfodol, mae hyn yn adlewyrchiad o'r codiadau cyflog cyffredinol a gynlluniwyd yn y sector (2% ar gyfer 2019 a 2020) ond gofynnir i gyflogwyr ystyried a ddylid defnyddio ffigur uwch, gan fel arall byddai effaith codiadau uwch yn dod drwedd yn y prisiad nesaf (fel yn 2019). Yn y bôn, mae'n risg cyllidebol i gyflogwyr reoli gan eu bod yn gwybod yn well na'r Actiwari beth yw'r cynnydd cyflog yn debygol o fod yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Holodd Mr Hibbert a ddylid cadw'r cyfnod adfer diffyg ar gyfartaledd yn 15 mlynedd. Nododd Mr Middleman fod disgwyliad o dan y prisiad Adran 13 a gyflawnir gan y GAD y byddai cyfnodau adfer yn lleihau dros amser ac yn nodweddiadol yn cynnal yr un pwynt gorffen. Nododd Mr Middleman, fodd bynnag, pan fydd yr hyd yn mynd yn rhy fyr, y gall beri i ofynion cyfraniadau fynd yn rhy gyfnewidiol. Yn dibynnu ar y cyfnod olaf a fabwysiadwyd yn y prisiad hwn, mae'n bosibl na fyddai'r cyfnod cyfartalog yn lleihau eto neu gan lai na thair blynedd.

Rhedodd Mr Middleman trwy'r materion polisi cyfredol gan dynnu sylw at achos gwahaniaethu ar sail oedran McCloud mewn perthynas â'r newidiadau i fuddion a wnaed yn 2014 (a'r amddiffyniadau a roddwyd i rai aelodau cyn pen 10 mlynedd ar ôl ymddeol) sy'n golygu y bydd costau McCloud ychwanegol i'r holl gynlluniau sector cyhoeddus. Cyhoeddwyd canllawiau gan y Llywodraeth yn nodi y dylai polisi'r Gronfa mewn perthynas â'r lwfans ar gyfer datrysiad posibl McCloud fod yn glir.

Esboniodd Mr Middleman na fydd y rhwymedi sy'n ofynnol yn y LGPS yn hysbys cyn i'r cyfraddau cyfrannu gael eu cymeradwyo. Er na ellir ei gostio ag unrhyw sicrwydd gellir asesu cost pe bai'r meini prawf oedran yn cael eu dileu o ran y sail. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chyfleu i gyflogwyr yn seiliedig ar eu haelodaeth unigol.

Cynigiodd Mr Middleman y dylai cyflogwyr gael y dewis i wneud darpariaeth ar gyfer y costau posibl yn y cyfraddau cyfraniadau prisio ar gyfer dyfarniad McCloud neu wneud darpariaeth yn eu cyllidebau. Os gwnânt ddarpariaethau yn y cyfraniadau, yna ni fyddai adolygiad o gyfraniadau cyn y prisiad nesaf i ganiatáu ar gyfer costau McCloud, ond pe gwnaed darpariaeth yn y gyllideb yna os yw'r rhwymedi yn hysbys cyn y bydd y gofynion cyfraniadau prisio nesaf wedi cynyddu ac ôl-ddyddio o 1 Ebrill 2020. Felly, os rhoddir lwfans yn y cyfraniadau rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2023 bydd gan gyflogwr sicrwydd cyllidebol ar gyfer y cyfnod hwn.

Ychwanegodd Mr Middleman hefyd mai dyma'r dull costio a fabwysiadwyd ar gyfer pob cyflogwr yn eu cyfrifon blynyddol felly mae'n gyson.

Dyweddodd Mr Middleman y byddai'r lefel ariannu ym mhriadiad 2019, ar sail y paramedrau arfaethedig, yn gynydd i 91% gan arwain at ddiffyg llawer is. Fodd bynnag, byddai'r gyfradd gwasanaeth yn y dyfodol yn cynyddu i 17.3% o'r tâl fesul blwyddyn. Byddai darpariaeth McCloud ar draws y Gronfa yn c0.5% o dâl rhwymedigaethau a 0.5% o dâl y flwyddyn mewn perthynas â'r gyfradd gwasanaeth yn y dyfodol.

Cadarnhaodd hefyd y pwyntiau allweddol canlynol ynghylch materion polisi eraill;

- Ni chaniateir rheoli costau ym Mhriadiad Actiwaraid 2019 gan iddo gael ei oedi.
- Ymgynghorir â'r polisi mewn perthynas â phriadiadau dros dro ac adolygiadau cyfradd cyfraniadau cyflogwyr unigol rhwng priadiadau o ran pryd y byddai'r Gronfa'n gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n edrych yn fwyfwy posibl na fydd y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno cyn i'r FSS gael ei gymeradwyo. Er hynny, yn ei farn ef, dylid ymgynghori â'r materion hyd yn oed pe bai'r polisi'n cael ei dynnu o'r FSS hwn a bod yr FSS yn cael ei ddiweddarau eto yn ddiweddarach i'w gyflwyno eto.
- Credydau ymadael yw lle gall cyflogwr dderbyn arian yn ôl wrth adael os yw'r sefyllfa ariannu yn dangos gwaged (ar sail yswiriant yn nodweddiadol). Rhoddwyd y polisi ar waith yn 2018 a disgwylir i Reoliadau gael eu diweddarau i gau bwlch ar gyfer rhai achosion lle mae cyflogwr arall (e.e. Cyngor) yn gwarantu'r ddyled ond nad yw'n derbyn y gwaged yn ôl. Roedd disgwyl y Rheoliadau hyn cyn diwedd y flwyddyn ac mae angen i'r FSS eu hadlewyrchu, felly ymgynghorir â chyflogwyr ynghylch a yw'r polisi presennol yn ddigonol.
- Y polisi mewn perthynas â phryd y byddai cyflogwr yn cael dod yn "gyflogwr Gohiriedig" e.e. lle gall cyflogwr aros yn y Gronfa heb unrhyw aelodau gweithredol. Byddai gan hwn gymhwysiad cyfyngedig yn y Gronfa o ystyried sylfaen y cyflogwr.

Holodd Mr Latham y llinell amser ar gyfer ymgynghori â'r FSS. Dywedodd Mr Middleman y bydd canlyniadau'r cyflogwr a'r FSS drafft yn cael eu cyhoeddi gerbron yr AJCM ym mis Tachwedd, felly gellir eu trafod yn uniongyrchol gyda chyflogwyr.

Cododd y Cynghorydd Bateman y mater o amddiffyn diffyg dalu gan gyflogwr. Amlygodd Mr Middleman bwysigrwydd bod y polisi mor gynhwysfawr â phosibl oherwydd os bydd un cyflogwr yn diffyg dalu yna mae'n rhaid i'r gwarantwr neu'r holl gyflogwyr eraill nodi ei rwymedigaethau. Mae prosesau ar wahân yn ymwneud â rheoli risg cyflogwyr yn gyffredinol ac yn benodol cesglir data cyfamod ar allu cyflogwr i dalu cyfraniadau i wneud asesiad ar y tebygolrwydd y bydd cyflogwr yn diffyg dalu a chymerir camau i'w leihau e.e. cyfraniadau uwch a / neu ddiogelwch.

Holodd y Cynghorydd Bateman am nifer y cyflogwyr yn y Gronfa. Cadarnhaodd Mrs Fielder fod 43 o gyflogwyr.

Cytunodd y Pwyllgor ar y prif newidiadau paramedr a'r polisiau drafft a drafodwyd.

## **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Cyllido Drafft; a
- (b) Dirprwyodd y Pwyllgor fireinio a chwblhau'r Datganiad Strategaeth Cyllido drafft i'r swyddogion cyn ymgynghori'n ffurfiol â chyflogwyr.

## **22. POLISI BUDDSODDIAD CYFRIFOL**

Dyweddodd Mr Buckland fod y Gronfa wedi penderfynu adolygu'r dulliau cyfredol sydd ar waith mewn perthynas â buddsoddi cyfrifol i sicrhau bod ganddynt y ffocws priodol o ystyried datblygiadau diweddar. Anfonwyd arolwg i gasglu barn aelodau'r Pwyllgor.

Pwysleisiodd Mr Buckland mai'r ddyletswydd ymddiriedol yw sicrhau'r enillion gorau posibl ar gyfer buddsoddiad, ond nododd fod ystyriaethau ynghylch risgiau ESG (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu) y gall ac y mae'r Gronfa yn eu hystyried. Mae polisiâu eisoes ar waith yn yr ISS (Datganiad Strategaeth Buddsoddi) fel polisi buddsoddi a chynaliadwyedd cyfrifol. Esboniodd Mr Buckland fod y Gronfa felly'n cychwyn o bolisi sydd wedi'i ffurfio'n dda a'i fod yn edrych i'w wella a'i ddatblygu'n rhywbeth mwy effeithiol.

Esboniodd mai'r dulliau buddsoddi cyfrifol posibl yw;

- Integreiddio - mae ffactorau ESG wedi'u hintegreiddio - persbectif ehangach a risg / cyfle
- Stiwardiaeth - arfer perchnogaeth weithredol (hawliau pleidleisio ac ymgysylltu)
- Buddsoddiad - y nod yw twf tymor hir mewn meysydd sydd ag effaith gyfrifol gadarnhaol
- Sgrinio Negyddol - osgoi buddsoddiad ag effaith gyfrifol negyddol h.y. tybaco / glo

Dadleuodd Mr Everett ei bod yn bosibl na fyddai angen sgrinio pŵl pe bai integreiddio'n cael ei gynnwys yn dda. Credai y byddai'n dda gweld y broses o feddwl a herio. Cytunodd Mr Buckland.

Dyweddodd Mrs Fielder fod gan y Gronfa nifer o fuddsoddiadau eisoes mewn ynni adnewyddadwy ac mae hi'n edrych i integreiddio hyn yn fwy ar draws y WPP. Dywedodd Mr Everett y dylent groesawu ymrwymiad WPP i wthio cynnydd yn y maes hwn ac yn benodol byddent yn sicrhau y gallai gofynion polisi'r Gronfa gael eu cyflawni gan WPP. Ymatebodd Mr Latham fod Russell and Link yn y Pwyllgor nesaf felly gall y Pwyllgor ofyn cwestiynau iddynt a chael mwy o eglurder.

Esboniodd Mr Buckland ei fod wedi mynychu cyfarfod Is-bwyllgor Buddsoddi, Ymgysylltu a Llywodraethu Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun yr wythnos flaenorol lle'r oedd buddsoddiad cyfrifol ar yr agenda. Y bwriad oedd y bydd canllawiau Buddsoddi Cyfrifol yn cael eu rhoi i Gronfeydd LGPS. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi rheoliadau ar 1 Hydref yn amlinellu bod angen i gynlluniau corfforaethol fod â pholisi buddsoddi cyfrifol. Mae hefyd yn ofynnol cael polisi ar newid yn yr hinsawdd ond nid yw'r LGPS cyfredol yn gofyn am hyn.

Bu dadl ynghylch polisïau cronfeydd unigol yn dod at ei gilydd fel rhan o gronfa WPP. Amlygwyd mai mater i bob awdurdod gweinyddu unigol yw gosod ei bolisi Cronfa ei hun a dylai'r gronfa fod yno i roi'r polisïau hynny ar waith. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd gydag wyth awdurdod gweinyddu gwahanol o amgylch y bwrdd.

Cadarnhaodd Mr Buckland fod canlyniadau'r arolwg RI a gynhaliwyd yn dangos pedwar ymateb gan aelodau'r Pwyllgor. O ran materion ESG, roedd 75% o'r canlyniadau'n adlewyrchu bod gan y Pwyllgor ddealltwriaeth eithaf datblygedig o risg / cyfle buddsoddi a theimlai'r 25% arall nad oeddent wedi datblygu yn y maes hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Hughes ai'r ffocws allweddol yw edrych ar newid yn yr hinsawdd ac ar fuddsoddiadau yn y diwydiant awyrofod ac felly niwed posibl i newid yn yr hinsawdd. Cadarnhaodd Mr Buckland fod methodoleg o edrych ar unrhyw effaith e.e. Mynegai Byd-eang 2000 stociau NISI sy'n gwneud llawer o waith o amgylch pob stoc unigol yn erbyn ffactorau ESG, ac un o'r rheini yw newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon.

Roedd Mr Latham yn meddwl tybed beth fyddai ymateb y Pwyllgor pe gallai'r Gronfa leihau'r ôl troed carbon gyda gwall olrhain isel. Holodd Mr Latham hefyd faint roedd y Pwyllgor yn credu mewn sgrinio. Dywedodd Mr Hibbert mai'r mater gyda sgrinio yw ble ydych chi'n stopio e.e. onid ydych chi'n buddsoddi mewn manwerthwyr oherwydd eu bod yn gwerthu tybaco? Nododd y Cynghorydd Rutherford ei gytundeb â Mr Hibbert y dylid cael elfen o sgrinio o'r dechrau. Gofynnodd hefyd am wella adroddiadau buddsoddi'r Gronfa i gynnwys mwy o wybodaeth am ffactorau ESG.

Mynegodd Mr Hibbert bryder ynghylch buddsoddi goddefol o ystyried bod y rheolwr buddsoddi yn sicrhau enillion ar y farchnad heb fynd ati i sgrinio stociau. Dywedodd Mrs Fielder ei bod bellach wedi gweld rheolwyr goddefol yn datblygu dros amser; os yw pobl yn dymuno eithrio rhywbeth, mae rhai rheolwyr bellach yn addasu eu dull. Ychwanegodd Mr Buckland ei fod yn dibynnu ar ba fynegai y maen nhw'n edrych i'w olrhain.

Gorffennodd Mr Buckland trwy nodi ei fod yn teimlo bod llawer o safbwyntiau da wedi'u trafod ac y bydd yn ceisio ymgorffori'r holl safbwyntiau yn y polisïau diwygiedig.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol deall y theori yn ymarferol. Cadarnhaodd Mr Buckland y byddai'n edrych i fynd i'r afael â hyn fel rhan o'r sesiwn hyfforddi sydd i ddod ym mis Hydref.

Gofynnodd y Cynghorydd Rutherford am hyfforddiant manylach ar fuddsoddiadau cyfrifol ar wahân i'r eitemau arferol ar yr agenda fel y gellir cynnal trafodaethau manwl. Cadarnhaodd Mr Harkin y byddai hyn yn cael sylw yn ystod y diwrnod hyfforddi.

Roedd y Cynghorydd Rutherford yn meddwl tybed a fu unrhyw ymchwil ar y pwnc hwn, h.y. casglu gwybodaeth ynghylch sut mae'r aelodau ym mhob Cyngor yn teimlo. Cadarnhaodd Mrs Fielder ei bod yn derbyn ymholiadau

mynych gan aelodau yn gofyn am wybodaeth amrywiol e.e. cwestiynodd aelod faint mae'r Gronfa yn ei fuddsoddi mewn tanwydd ffosil / arfau ac ati.

Ystyriodd y Pwyllgor Bolisi RI Partneriaeth Pensiwn Cymru drafft ac ni ofynnwyd am unrhyw newidiadau pellach mewn perthynas ag ef.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Mynegodd y Pwyllgor farn ar gredoau RI y Gronfa, er mwyn helpu i ddatblygu polisïau'r Gronfa; a
- (b) Cytunodd y Pwyllgor ar Bolisi RI Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**23. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Oherwydd hyd yr agenda, cadarnhawyd bod yr adroddiad yn yr eitem hon wedi'i nodi a bod unrhyw gwestiynau wedi'u cymryd.

Cadarnhaodd Mr Latham fod canlyniadau arolwg y Rheoleiddiwr Pensiwn wedi eu rhyddhau a bod un argymhelliad yn nodi y dylai cronfeydd pensiwn gael mwy o ryddid i dalu cyflogau i ddenu a chadw staff. Nododd Mrs McWilliam y gall polisïau awdurdodau lleol arwain at anawsterau wrth dalu lefelau priodol i dimau pensiynau, a all yn ei dro effeithio ar gadw staff. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid codi a chlywed y sylwadau a'r pryderon hyn o'r Gronfa yn genedlaethol. Dywedodd Mrs McWilliam fod yna weithdai bellach yn ymdrin â'r materion ac yn caniatáu trafodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau.

**24. DIWEDDARIAD CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

Nodwyd yr adroddiad ac aeth y Cadeirydd yn syth at gwestiynau. Holodd Mr Hibbert ddiweddariad ar Fargen Deg Newydd. Cadarnhaodd Mr Middleman ei fod yn dal i gael ei symud ymlaen gyda'r bwriad o'i weithredu yn 2020 ond mae blaenoriaethau eraill wedi ei ddal yn ôl. Nododd y gallai gael ei oedi o hyd ac y bydd yn diweddarau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad hwn a gwneud eu hunain yn ymwybodol o'r gwahanol faterion sy'n effeithio ar yr LGPS a'r Gronfa.

**25. DIWEDDARIAD GWEINYDDU/CYFATHREBU PENSIWN**

Tynnodd Mrs Williams sylw at ganlyniadau adroddiad Ansawdd Data Rheoleiddiwr Pensiwn 2019. Gostyngodd y sgôr Data Cyffredin o 92.7% y llynedd i 92.1%. Roedd y gostyngiad bach hwn o ganlyniad i 3,867 yn fwy o aelodau yn cael eu profi eleni. Roedd sgôr Data Penodol y Cynllun wedi cynyddu o 68.2% i 81.7%. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y ffactorau newydd, y sgôr Cynllun

Penodol a fydd yn cael ei adrodd i'r TPR yw 92.7% a'r sgôr Data Cyffredin yw 96.8%.

Nododd Mrs Williams hefyd mai un o'r gweithredoedd ar y cynllun busnes yw cwblhau'r ymarfer olrhain aelodau sydd ar y gweill.

Pwysleisiodd Mr Everett fod angen gwthio parhaus gan yr holl randdeiliaid i aelodau ddefnyddio'r Hunan Wasanaeth i Aelodau. Bydd hyn yn cynorthwyo'n fawr o ran rhyddhau adnoddau ar y tîm gweinyddol.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf a gwneud sylwadau. Yn benodol, nododd y Pwyllgor yr ystadegau sy'n tynnu sylw at y cynnydd rhagorol gyda glanhau data (gan gynnwys cyflwyno data prisio) a gweithredu iConnect; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo newid y dyddiadau yn y cynllun busnes fel y nodwyd ym mharagraff 1.01.

#### **26. DIWEDDARIAD CYLLID A LLWYBR CYRRAEDD TARGED**

Nododd Mr Middleman mai rhan hanfodol y cyllid a'r buddsoddiad yw rheoli'r risg a wneir trwy'r llwybr hedfan. Nododd fod y lefelau amddiffyn ecwiti wedi cynyddu 5% o'r c£350m a gwmpesir.

Nododd y cymerwyd y cyfle i gynyddu'r amddiffyniad rhag risgiau ar arian cyfred i c75% yn gyffredinol i gloi enillion hyd yma i mewn. Roedd hyn ar y sail bod Brexit â Dim Bargen yn llai tebygol.

Holodd y Cynghorydd Bateman a yw'r broses o reoli risg yn gostus. Cadarnhaodd Mr Middleman fod cost i reoli risg, yn amrywio o gost gweithredu a'r gost barhaus o reoli'r risg honno. Yr allwedd yw ystyried "gwerth am arian" y rheoli risg yn erbyn y gost a gwneir hyn bob amser fel rhan o'r broses o benderfynu a ddylid ei weithredu ai peidio. Hyd yma mae budd cyffredinol y llwybr hedfan wedi gorbwyso'r gost yn sylweddol.

Tynnodd Mr Harkin sylw at y gost ar dudalen 202, paragraff 1.07. Nododd hefyd fod dibrisiant y bunt yn arwain at elw i'r Gronfa oherwydd yr amlygiad ecwiti tramor corfforol heb ei reoli. Mynegodd fod angen bancio'r enillion hyn fel y gallai'r Gronfa gadw'r enillion pe bai'r bunt yn cryfhau.

Dywedodd Mr Harkin y bydd manylion pellach am hyn yn y sesiwn hyfforddi ym mis Hydref.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor wedi nodi'r sefyllfa ariannu wedi'i diweddarau (ar ragdybiaethau sy'n gyson â phrisiad 2016) a'r sefyllfa rheoli risg ar gyfer y Gronfa a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar wahanol elfennau'r Fframwaith Rheoli Risg;



- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi fod y strwythur amddiffyn ecwiti bellach wedi'i ddiwygio i gynyddu lefel yr amddiffyniad; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi bod unrhyw risg arian cyfred sy'n gysylltiedig â gwerth marchnadol y portffolio ecwiti synthetig a'r marchnadoedd ecwiti datblygedig sydd bellach wedi'u rheoli'n llawn.

## **27. DIWEDDARIAD BUDDSODDI A CHYLLID**

Nodwyd yr adroddiad ac aeth y Cadeirydd yn syth at gwestiynau. Tynnodd Mrs Fielder sylw at yr ymrwymiad a wnaed yn flaenorol gyda Threadneedle, sef Cronfa Gweithle Carbon Isel gyda'r nod o wneud adeiladau'n gynaliadwy. Cytunwyd hefyd i ymrwymo i'w hail Gronfa.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r diweddariad ar gyfer cyfrifoldebau dirprwyedig ac wedi darparu sylwadau.

## **28. CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU**

Esboniodd Mr Latham rai o elfennau allweddol yr adroddiad hwn.

Ar baragraff 1.09 ar dudalen 235, amlinellodd Mr Latham fod y gronfa wedi bwriadu creu mandad ecwiti Ewropeaidd, ond bydd y buddsoddwyr a oedd wedi gofyn amdano yn wreiddiol nawr yn buddsoddi yn y mandad Byd-eang.

Ar baragraff 1.08 hefyd ar dudalen 235, nododd Mr Latham ei bod yn debygol y bydd trosglwyddo asedau incwm sefydlog yn cael ei wthio i fod yn hwyrach na mis Tachwedd 2019 (fel y nodwyd yn wreiddiol yn yr adroddiad). Bellach bydd yn wythnos gyntaf mis Rhagfyr 2019, fodd bynnag, pa mor agosaf at y Nadolig ydyw, bydd yn cyflwyno rhai materion hylifedd.

Nododd Mr Latham y cytunwyd ar ôl trafodaeth y bydd cynghorwyr yn gallu mynychu diwrnodau ymgysylltu â Rheolwr y Gronfa.

Nododd Mr Hibbert unwaith eto y diffyg cynrychiolwyr aelodau yn JGC a dymunai i hyn gael ei godi'n ffurfiol ar yr agenda ar y WPP. Amlygodd Mrs McWilliam nad oedd hi'n ymwybodol y bwriadwyd i'r cyfarfod parhaus gyda Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn fod yn lle cynrychiolaeth aelodau cynllun ar y JGC. Amlygodd Mr Hibbert nad yw Cadeiryddion y Bwrdd Pensiwn yn aml yn gynrychiolwyr aelodau cynllun. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi hyn yn y JGC nesaf. Nododd Mr Buckland fod cynrychiolaeth aelodau'r cynllun o fewn trefniadau llywodraethu 'cyfun' yn cael ei godi ar lefel genedlaethol, ac yn ddiweddar cafodd sylw yng nghyfarfod is-bwyllgor Buddsoddi, Ymgysylltu a Llywodraethu SAB.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad; a

- (b) Bod y pwyllgor wedi trafod a chytuno ar unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar gyfer y WPP.

**29. DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD A Y STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB GAN Y RHEOLWR**

Nodwyd yr adroddiad gyda Mr Harkin yn tynnu sylw at y ffaith bod yr holl wybodaeth ar dudalen 249 wedi'i dyddio hyd ddiwedd Mehefin 2019 ond fod pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Ers hynny bu anwadalrwydd o fewn asedau twf fel ecwiti a nwyddau.

Dyweddodd Mr Harkin ei fod wedi bod yn chwarter cryf ar gyfer enillion buddsoddiad gan arwain at werthfawrogiad o dros £ 90m o asedau. Cadarnhaodd hefyd fod y Gronfa, ar 31 Gorffennaf 2019, wedi mynd dros £2bn o faint.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Trafododd a gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar y diweddariad Marchnad ac Economaidd ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2019, sydd i bob pwrpas yn gosod y llwyfan ar gyfer crynodeb y Strategaeth Fuddsoddi a Pherfformiad y Rheolwr; a
- (b) Trafododd a gwnaeth y Pwyllgor grynoded o'r Strategaeth Fuddsoddi a Pherfformiad y Rheolwr ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2019.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u diweddariadau yng nghyfarfod y Pwyllgor. Nododd fod cyfarfod arbennig y Pwyllgor ar 7 Hydref gan ddechrau am 12pm i lofnodi'r adroddiadau a'r cyfrifon blynyddol, ac yna'r diwrnod hyfforddi.

Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd. Gorffennodd y cyfarfod am 12: 30pm.

.....  
**Cadeirydd**